

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 A GYNHALIWYD REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS AR DYDD MERCHER, 21 MAI 2025 09:45

Presennol

Y Cyngorydd M Lewis – Cadeirydd

H T Bennett
S Easterbrook
J E Pratt

S J Bletsoe
H Griffiths
R Williams

O Clatworthy
RM James

C Davies
P W Jenkins

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A R Berrow, RJ Collins a/ac J Llewellyn-Hopkins

Swyddogion:

Michael Pitman
Nimi Chandrasena
Andrea Lee
Kirsty Evans

Swyddog Cymorth Technegol – Y Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Cymorth
Uwch Gyfreithiwr
Uwch Swyddog Trwyddedu

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim

3. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD :</u>
	Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu dyddiedig 22/05/2024 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	21/05/2025

4. Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Hapchwarae 2005 Dirprwyo Swyddogaethau

Y penderfyniad a wnaed	Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Swyddog Trwyddedu, a'i bwrpas oedd cynnig trefniadau ar gyfer awdurdodi swyddogion o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 ac i gadarnhau trefniadau ar gyfer ffurfio is-bwyllgorau yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 2025. Tynnodd aelod sylw'r pwyllgor at y ffaith mai fel arsyllwr yn unig yr oedd ef yn bresennol ar y pryd gan nad oedd wedi cwblhau ei hyfforddiant a'i sefydlu fel aelod oedd newydd gael ei ethol. <u>PENDERFYNWYD:</u> Cytunodd y Pwyllgor drwy godi dwylo a chadarnhau yn llafar i: i) Awdurdodi'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol i gychwyn achos o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. ii) Awdurdodi'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol, Rheolwr y Tîm Trwyddedu (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bro Morganwg) a'r Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol) i gydnabod a chyhoeddi Rhybuddion ynghylch Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro; i gyhoeddi, gwrthod, atal trwyddedau, cofrestriadau, tystysgrifau, caniatâd a hysbysiadau; i weithredu'r darpariaethau perthnasol mewn perthynas â throseddau, adolygiadau neu ofynion eraill; yn unol ag unrhyw un o'r rheolau, rheoliadau a/neu Orchmynion a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 (fel y'i diwygiwyd). iii) Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer ffurfio Is-bwyllgorau fel y nodir ym mharagraff 3.3 yr adroddiad.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	21/05/2025

5. Eitemau Brys

Y penderfyniad a wnaed	Dim
------------------------	-----

PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 - DYDD MERCHER, 21 MAI 2025

Dyddiad gwneud y penderfyniad	21/05/2025
-------------------------------	------------

I weld rhagor o'r drafodaeth a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y [ddolen](#) yma

Terfynwyd y cyfarfod yn 09:55